



CYNLLUN CYNEFIN TYWYN



Ffotograff gan Roger Lougher

Datblygwyd gan:

Mari Beynon Owen

Julia Thomason, Julia Thomason Associates

Rob Chambers, Chambers Conservation

Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol
2. Cyflwyniad
3. Demograffeg a Phroffil Economaidd
4. Archwiliad o'r Gymuned
5. Isadeiledd a Gwasanaethau
6. Ymgynghori
7. Asesiad Ymwelwyr
8. Adeiladau a'r Amgylchedd Adeiledig
9. Y Prif Heriau a'r Cyfleoedd
10. Casgliadau ac Argymhellion
11. Ffynonellau Ariannu Posib
12. Rhestr atodiadau:

Atodiad 1: Rhestr o unigolion/mudiadau'r ymgynghoriad

Atodiad 2: Mynegai Amddifadedd Lluosog/cyflogaeth yn ôl sector

Atodiad 3: Y Cyd-destun Strategol

Atodiad 4: Proffil Ymwelwyr/twristiaeth

Atodiad 5: Astudiaeth o Gyfleoedd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol

1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r Cynllun Cynefin hwn yn cyd-fynd gyda datblygiad Cais Safle Treftadaeth Byd i Dirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, a'r prif amcanion wrth lunio'r Cynllun yw:

- Cynyddu ymwybyddiaeth, balchder a dealltwriaeth o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi;
- Hyrwyddo adfywiad cymdeithasol ac economaidd yr ardal.

Cynhaliwyd gwaith ymchwil cynradd ac eilaidd trylwyr i hysbysu datblygiad y Cynllun, gan gynnwys:

- Adolygiad dogfennol a data o broffil demograffig ac economaidd Tywyn, y cyd-destun strategol, prosiectau adfywio, a'r proffil ymwelwyr a thwristiaeth;
- Asesiadau manwl o isadeiledd y pentref, gwasanaethau, darpariaeth gymunedol, y cynnig i ymwelwyr, a'r amgylchedd adeiledig hanesyddol – yn eu mysg, roedd gwaith archwilio o safbwynt yr 'ymwelydd anhysbys';
- Asesiad o gryfderau a gwendidau Tywyn, a'r heriau a'r cyfleoedd sydd yma;
- Adnabod y ffynonellau ariannu posib er mwyn gallu blaenoriaethu a mesur dichonoldeb prosiectau;
- Casgliadau ac argymhellion lle nodir themâu ar gyfer datblygu Tywyn.

I gyd-fynd â'r Cynllun Cynefin, paratowyd Cynllun Gweithredu sydd yn amlinellu prosiectau cyfredol ac arfaethedig, ynghyd ag adnoddau gofynnol, amserlenni, arweinydd prosiect a phartneriaid posib. Mae hon yn ddogfen weithredol i'w diweddarau'n rheolaidd a'i hadolygu'n flynyddol gan Gyngor Gwynedd a'r budd-ddeiliaid. Mae'r prosiectau a'r blaenoriaethau a restrir yn deillio o'r ymgynghoriad gyda'r gymuned a budd-ddeiliaid; gweler y blaenoriaethau yn y Cynllun Gweithredu.

Dyma grynhoi **prif ganfyddiadau ein hymchwil eilaidd**:

- Dengys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru fod Tywyn 1 yn cymharu'n ffafriol gyda Gwynedd a Chymru yn y rhan fwyaf o feysydd, heblaw am fynediad i wasanaethau a thai. Dynodir Tywyn 2 yn ardal ddifreintiedig (ymysg y 30% - 50% mwyaf difreintiedig) yn y mwyafrif o ddangosyddion, gyda thai yn broblem benodol (ymysg y 20% - 30% mwyaf difreintiedig), heblaw am fynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol.
- Mae data o gyfrifiad 2011 yn dangos fod canrannau uwch na'r cyfartaledd o'r boblogaeth dros 16 oed heb gymwysterau a gyda lefelau uwch na'r cyfartaledd yn anweithgar yn economaidd
- Daeth yn amlwg mewn arolwg ar-lein (wrth ddatblygu Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd) fod angen mynd i'r afael ag adnoddau i'r cyhoedd ac ymwelwyr, gan gynnwys atyniadau o safon; mynediad i isadeiledd a gwasanaethau, gan gynnwys parcio; ymddwyn yn gyfeillgar tuag at dwristiaid; cyfleoedd siopa.

- 2016 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus i sector dwristiaeth Gwynedd, gyda gwar-
iant o dros £1 biliwn, dros 7 miliwn o ymwelwyr, a chynnydd mewn gwario arian y tu
allan i fisoedd yr haf.
- Daw ymwelwyr i Wynedd oherwydd y dirwedd, cefn gwlad a thraethau, yn ogystal â
gweithgareddau awyr agored. Roedd 82% o ymwelwyr wedi datgan fod yr ymweliad
wedi eu plesio'r fawr a dwedodd 98% y byddent yn debygol o ddod nôl i Wynedd.

Dyma grynhoi **prif ganfyddiadau ein hymchwil cynradd**:

- **Gwella adnoddau ac isadeiledd ymwelwyr** er budd ymwelwyr a'r gymuned.
- Adeiladu ar **brosiectau dehongli, hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol** cyfredol
ac annog gwaith dehongli ehangach o hanes y dref.
- Datblygu **rhwydwaith ehangach o lwybrau cerdded a beicio gydag arwyddion**.
- Darparu **adnoddau hamdden** newydd er bydd y gymuned.
- Sicrhau fod **adeiladau hanesyddol y dref yn cael eu gwarchod a'i hadeiladau**
eiconig yn cael eu hadnewyddu a'u hailddefnyddio at ddefnydd twristiaid a'r gym-
uned.

2 Cyflwyniad

Datblygwyd y Cynllun Cynefin i gyd-fynd â datblygiad Cais Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer
Ardal Llechi Gogledd Orllewin Cymru er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth, balchder a dealltwr-
iaeth o dreftadaeth gyfoethog y diwydiant llechi ac i hyrwyddo adfywio economaidd a chym-
deithasol yr ardal.

Mae Tywyn yn dref glan môr ar arfordir deheuol Gwynedd ym Mae Ceredigion.

Sefydlwyd yr anheddle gwreiddiol gan Sant Cadfan, sant o Lydaw. Darganfuwyd croes
garreg, Carreg Cadfan, yn yr eglwys, a dyma'r enghraifft gynharaf o Gymraeg ysgrifenedig.

Yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tyfodd y dref yn sylweddol, yn bennaf tua'r
môr, a chynyddodd ei hapêl fel cyrchfan i dwristiaid.

Agorwyd y rheilffordd yma yng nghanol y 1860au a chafodd effaith arwyddocaol ar y dref.
Mae'r orsaf yn dal ar agor.

Yn sgil datblygiad y chwarel lechi ym Mryn Eglwys, uwchben Abergynolwyn, adeiladwyd Rheil-
ffordd Tal-y-llyn yn 1865, lein fach i gludo llechi i Dywyn. Agorwyd Gorsaf Glanfa Tywyn yn
wreiddiol er mwyn dadlwytho'r llechi ar y lanfa ger y brif reilffordd.

Bu'r lluoedd arfog yn bresenoldeb arwyddocaol yn Nhywyn drwy'r rhan fwyaf o'r ugeinfed ganrif - roedd y dref yn brif faes ymarfer ar gyfer glaniadau rhyfela amffibiaidd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Daeth y cyswllt gyda'r lluoedd arfog i ben pen gaeodd gwersyll Morfa yn 1999.

3 Demograffeg a Phroffil Economaidd

Mae gan Dywyn boblogaeth o 3,264 (ffynhonnell: cyfrifiad 2011); o blith y rhain mae 2,228 yn oed gweithio (68.3%)

Mae 60% o'r boblogaeth yn weithgar yn economaidd; darperir mwy o wybodaeth am sectorau cyflogaeth yn y tabl isod

Nodir fod 40% o'r boblogaeth yn anweithgar yn economaidd; 5% ohonynt yn ddi-waith ac 11% wedi eu cofrestru'n sâl tymor hir/anabl

Nid oes gan 32% o'r boblogaeth (16+) unrhyw gymhwyster

Mae 66% o'r boblogaeth yn berchen ar eu heiddo; 22% yn byw mewn tai rhent cymdeithasol; a 18% yn rhentu'n breifat

Nid oes gan 25% o aelwydydd gar

Mae 73% o'r boblogaeth mewn ieuchyd da/da iawn; 20% yn weddol iach; 8% yn wael eu hiechyd

O ran dosbarth cymdeithasol, mae 24% yn weithwyr proffesiynol a rheolwyr; mae gan 33% sgiliau; 35% a chanddynt rai sgiliau neu ddim sgiliau o gwbl; 9% yn fyfyrwyr/eraill.

Cymhariaeth â'r cyfartaledd yng Ngwynedd a Chymru:

- Mae'r gyfran o'r boblogaeth sydd yn weithgar yn economaidd yn is yn Nhywyn (60%) na'r cyfartaledd ar gyfer Gwynedd (65%) a Chymru (66%). Felly, mae cyfran y boblogaeth sydd yn anweithgar yn economaidd (40%) hefyd yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (35%) a Chymru (34%)
- Er y lefelau uwch na'r cyfartaledd o'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd, mae'r gyfran o boblogaeth Tywyn sy'n ddi-waith (5%) yn is na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (5.5%) a Chymru (6.5%)
- Mae'r gyfran o'r rhai sydd yn sâl tymor hir/anabl ychydig yn is yn Nhywyn (11%) na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (12.5%) ac yn sylweddol is na'r cyfartaledd ar draws Cymru (18%)
- Mae'r gyfran o'r boblogaeth (16+ oed) sydd heb gymwysterau (32%) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (23%) a Chymru (26%)
- Mae perchenogaeth eiddo yn Nhywyn (66%) yn gymesur â'r cyfartaledd yng Ngwynedd (66%) a Chymru (68%); mae cyfran uwch o aelwydydd (22%) yn rhentu'n breifat nac ar gyfartaledd yng Ngwynedd (18%) ac yng Nghymru 16%); mae cyfran is yn

rhentu tai cymdeithasol (13%) nac ar gyfartaledd yng Ngwynedd (16%) a Chymru (16.5%)

- Mae'r gyfran gyfartalog o aelwydydd heb gar (25%) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (21%) a Chymru (23%)
- Yn Nhywyn mae canran gyfartalog y boblogaeth mewn iechyd da/da iawn (73%) yn sylweddol is nac yng Ngwynedd (81%) a Chymru (78%); i'r rhai sydd mewn iechyd gweddol, mae'n uwch: Tywyn (20%), Gwynedd (15%), Cymru (15%); a'r mae'r gyfran o'r rhai sydd yn wael (8%) yn uwch nac yng Ngwynedd (5%) ond yn gymesur â Chymru gyfan
- Mae'r ganran o'r dosbarth proffesiynol a rheolwyr (24%) yn is na'r cyfartaledd yng Ngwynedd a Chymru (y ddau yn 27%); cyfran y bobl gyda sgiliau yw 33%, sydd yn gymesur â'r cyfartaledd yng Ngwynedd a Chymru (30%); mae cyfran y bobl gyda rhai neu dim sgiliau (35%) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (26%) a Chymru (29%); ac mae'r gyfran o fyfyrwyr yn sylweddol is yn Nhywyn (9%) na'r cyfartaledd yng Ngwynedd (17%) a Chymru (14.5%)

Y prif gyflogwyr yn Nhywyn yw:

Brighter Foods (Halo Foods gynt) a sefydlwyd yn 2014 ac sy'n cyflogi dros 180 o bobl (niferoedd 2017). Yn 2018 budsoddodd Brighter Foods filiynau mewn gweithle a thrydedd linell gynhyrchu er mwyn cynhyrchu bwydydd heb lwten na chnau; ei nod yw cyflogi dros 200 o bobl yn 2019.

Rheilffordd Tal-y-llyn, sy'n dibynnu'n helaeth ar gyfraniad gwirfoddolwyr i gyflawni swyddogaethau allweddol, gan gynnwys yr orsaf feistr, gweithwyr y cledrau, gyrwyr injan stem a disel, gardiau. Mae hyd at 20 o wirfoddolwyr yn cefnogi'r gwaith o redeg y rheilffordd, ac o ganlyniad dim ond ychydig o staff llawn amser, cyflogedig sydd mewn swyddi allweddol, gan gynnwys yn y siop, arlwyio a staff y swyddfa.

Dengys Tabl 3 yn Atodiad 2 y sectorau lle cyflogir aelodau'r gymuned sy'n weithgar yn economaidd.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (y Mynegai Amddifadedd) yw mesuriad swyddogol amddifadedd cymharol mewn ardaloedd llai yng Nghymru; gelwir y rhain yn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (ACEHI) ac mae ganddynt boblogaeth gyfartalog o 1,600. Gan fod poblogaeth pob un yn debyg, mae'n haws gwneud dadansoddiad cymharol. Cyflwynir y Mynegai fel cyfres o rengoedd: mae rheng 1 yn cynrychioli'r ardal fwyaf difreintiedig a rheng 1909 yr un lleiaf difreintiedig. Mae'n galluogi i ni ddeall pa ardaloedd sydd yn fwy neu'n llai difreintiedig, ond nid maint y gagendor.


Yn Atodiad 2 rydym yn cyflwyno data sy'n dangos sut mae'r ardaloedd ACEHI yn Nhywyn yn cymharu gydag ardaloedd eraill ledled Cymru a Gwynedd.

Dengys y data fod mynediad i wasanaethau a thai yn feysydd o bryder neu a all beri pryder yn Nhywyn, ond bod y mwyafrif o ddangosyddion, yn arbennig yr amgylchedd ffisegol, yn cymharu'n dda gyda Gwynedd a gweddill Cymru. Mae data o Gyfrifiad 2011 yn dangos bod lefelau


diweithdra ychydig yn is na'r cyfartaledd, a bod y gyfran o boblogaeth Tywyn sydd yn weithgar yn economaidd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd.

Yr ACEHI yn ôl eu rheng yng Ngwynedd

Dengys y siartiau isod ar ba reng y mae Tywyn yng Nghymru yn ôl mesuryddion unigol. Fel y dangoswyd uchod, cyflwynir y data mewn mynegai yn wrthol, hynny yw, po isaf yw'r sgôr, po uchaf yw'r amddifadedd, ac i'r gwrthwyneb; a pho uchaf yw'r sgôr, po isaf yw'r amddifadedd. Er enghraifft, mae'r siart isod yn dangos fod Tywyn yn y 50% lleiaf difreintiedig ar gyfer pob mesurydd heblaw am fynediad i wasanaethau, lle saif yn y 10% - 20% mwyaf difreintiedig.



Mae'r siart isod yn dangos fod Tywyn 2 ymhlith y 30-50% mwyaf difreintiedig ar gyfer y mwyafrif o'r mesuryddion ac yn y 20-30% o ACEHI mwyaf difreintiedig o ran tai; ond, mae yn y 50% lleiaf difreintiedig o ran mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol.



4 Archwiliad o'r Gymuned

Cynrychiolaeth /gweithgareddau'r Gymuned

Yn yr adran hon rydym yn crynhoi'r adnoddau a mudiadau cymunedol sydd yn bodoli yn Nhywyn er mwyn rhoi trosolwg o'r ddarpariaeth ar gyfer y gymuned leol.

Cyngor Tref Tywyn - sydd yn cynnwys tair ward: Morfa, Gorllewin Tywyn a Dwyrain Tywyn.

Mannau Cyfarfod yn y Gymuned

Mae gan Dywyn sawl canolfan sydd yn gartref i grwpiau cymunedol, clybiau a mudiadau lleol, gan gynnwys Canolfan Gymdeithasol Neuadd Pendre, Sinema'r Llusern Hud, ac Eglwys Bedyddwyr Saesneg Tywyn

Mae nifer o **fudiadau cymunedol, diwylliannol, chwaraeon a threftadaeth** yn Nhywyn:

Canolfan Hamdden Bro Dysynni

Caru Tywyn

Clwb Hoci Dysynni

Clwb Ieuencid Tywyn

Clwb Padlo Dysynni

Clwb Rygbi Tywyn

Clwb Sboncen Dysynni

Clwb Pêl droed Ieuencid Bro Dysynni

Côr Meibion Bro Dysynni

Cylch Meithrin Tywyn

Cymdeithas Hanes Tywyn a'r Cylch

Digwyddiadau Tywyn

Eglwys Bedyddwyr Saesneg Tywyn

Gwarchodwyr Traeth Tywyn

Merched y Wawr

Siambr Fasnach a Busnes Tywyn

Tywyn Gwyrddach

Sefydliad y Merched

Ymddiriedolaeth yr Amgueddfa Lein Fach

Mannau Cyfarfod diwylliannol a chelfyddydol yn y dref :

- Sinema'r Llusern Hud – dangosiadau ffilm; digwyddiadau cymunedol
- Neuadd Pendre – cyngherddau ac adloniant cymunedol; cyngherddau Wurlitzer

5 Isadeiledd a Gwasanaethau

Bws: tri gwasanaeth bws yn cysylltu Tywyn gyda Machynlleth a Dolgellau:

Tywyn - Dolgellau, 07.45 - 15.08, dydd Llun - Sadwrn, Sul a gwyliau cyhoeddus, 3 bws rhwng 10.05 -18.05

Tywyn - Machynlleth drwy Finffordd, 8.00 - 17.10; dydd Llun – Sadwrn yn unig
Tywyn – Machynlleth, 06.50 - 17.00, dydd Llun – Sadwrn
Cysylltiadau bws o Ddolgellau i Fangor; o Fachynlleth i Aberystwyth.

Trên: naw trên yn rhedeg yn ystod yr wythnos i Fachynlleth, gan gysylltu gydag Aberystwyth/Amwythig; tri thrên ar ddydd Sul; wyth trên yn rhedeg yn ystod yr wythnos i Borthmadog; dau drên ar ddydd Sul.

Parcio: dau faes parcio di-dâl – Marine Parade/Promenâd, 70 lle; Gorsaf Drên Tywyn, 20 lle.

Llwybr Beicio: ar Llwybr Beicio Cenedlaethol rhif 82 o Fachynlleth i Ddolgellau drwy Dywyn; llwybr beicio di-draffig rhwng Tywyn a Brynchrug.

Diwifr: diwifr cyhoeddus am ddim yn llyfrgell y dref; mae nifer o gaffis a thafarndai yng nghanol y dref ac ar lan y môr yn darparu diwifr am ddim.

6 Ymgynghori

Ymgynghoriad blaenorol

Adolygiad o Ddewisiadau ar gyfer Tywyn, 2010, JOP Consulting, ar ran Cyngor Gwynedd
Adolygiad o'r opsiynau adfywio ar gyfer Tywyn, ac ystyried rhestr hir o gynigion a luniwyd gan Bwyllgor Llywio Tywyn; yr 'asedau' lleol ar gael, a'r posibilrwydd o gefnogaeth ariannol i'r prosiectau.

Astudiaeth Gwella Canol y Dref, 2013, Cyngor Council

Nod yr astudiaeth oedd adnabod cyfleoedd, bygythiadau, cryfderau a gwendidau canol y dref yn ei gyflwr ar y pryd er mwyn ffurfio cynllun gweithredu.

Cynhaliwyd cyfarfod Arolwg Lleol gyda chynrychiolwyr o grwpiau budd-ddeiliaid lleol: y Siambr Fasnach, Cyngor y Dref, Ysgol Uwchradd Tywyn, Ysgol Penybryn, Sefydliad Trefnu Digwyddiadau Tywyn (Tywyn Events), Inner Wheel Tywyn, Partneriaeth Tywyn, Neuadd Pendre, aelodau etholedig wardiau cyngor Tywyn, Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru.

Mewn ymateb i'r dadansoddiad SWOT a ddatblygwyd o'r arolwg, gofynnwyd i fudiadau allweddol arwain ar amrywiol fentrau a dyrannwyd cyllideb o £7,500 ar gyfer prosiectau i wella Canol y Dref.

Ein hymgynghoriad

Bu i ni fynychu, a threfnu rhai o'r digwyddiadau a ganlyn er mwyn ymgynghori gyda'r gymuned:

Digwyddiad Dros dro/Llyfrgell Tywyn, Ebrill 2019: dau ddiwrnod o sesiynau agored yn y llyfrgell fel cyfres o weithgareddau/sgyrsiau a drefnwyd gan Cyfuno Gwynedd Fusion, ymgyrch gan Gyngor Gwynedd. Ymgynghorwyd gydag aelodau o'r cyhoedd a lluniwyd cyfarwyddyd A-Y o Dywyn.

Cyngor Tref Tywyn, Mehefin 2019: rhoddwyd cyflwyniad i Gyngor Tref Tywyn ac fe'i dilynwyd gyda thrafodaeth.

Llwybrau Tref Cymdeithas Hanes Tywyn, Gorffennaf 2019: mynychwyd y digwyddiad lansio a cherddwyd y llwybrau; ymgynghorwyd â'r cyhoedd/ymwelwyr a'r cerddwyr.

Cymdeithas Hanes Tywyn a'r Cylch, Gorffennaf 2019: cyflwyno adroddiad Asesiad yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol ac ymgynghori gydag aelodau am yr adeiladau rhestredig a'r nodweddion eraill yn y dref a nodwyd.

Cyngerdd Wurlitzer/Neuadd Pendre, Awst 2019: mynychwyd y cyngerdd ac ymgynghorwyd ag aelodau'r gynulleidfa.

Rydym wedi ymgynghori gyda'r **budd-ddeiliaid lleol** canlynol:

- Caru Tywyn
- Clwb Padlo Dysynni
- Cymdeithas Hanes Tywyn a'r Cylch
- Cyngor Tref Tywyn
- Siambr Fasnach a Busnes Tywyn
- Sinema Llusern Hud
- Rheilffordd Tal-y-llyn
- Tywyn Gwyrddach

Rhestrir y prosiectau sydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd a rhai newydd y gellid eu datblygu ac a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses ymgynghori yn y Cynllun Gweithredu atodedig.

Canfyddiadau ein hymgyngoriad

Dyma grynodedb o'r prif faterion datblygu cymunedol a nodwyd hyd yma yn ystod y broses ymgynghori.

Adnoddau ymwelwyr ac isadeiledd:

Mae Tywyn wedi hen ennill ei blwyf fel cyrchfan gwyliau i deuluoedd, gyda'r rhan fwyaf yn dod o Ganolbarth Lloegr. Mae hefyd hanes maith o selogion y rheilffordd yn treulio'u gwyliau yma er mwyn gwirfoddoli ar Reilffordd Tal-y-llyn.

Adnewyddwyd y promenâd yn ddiweddar, sydd yn golygu y gall pobl gerdded neu feicio ar hyd traeth Tywyn, a phlannwyd blodau gan y Siambr Fasnach a Busnes. Mae yma nifer o adnoddau gan gynnwys lle chwarae plant a phwll padlo; cyrtiau tennis, llain bytio, golff gwyllt a llain fowlio. Ar hyn o bryd, mae parcio am ddim, ond gallai Cyngor Tref Tywyn adolygu hyn yn y dyfodol agos. Nodwyd fod mynediad i gadeiriau olwyn i'r promenâd yn gyfleus iawn, felly hefyd yn y dref yn gyffredinol.

Yn fwy diweddar mae'r dref a'r ardal wedi cychwyn hyrwyddo eu hamgylchedd naturiol eithriadol a'r cyfleusterau sydd ar gael yno:

- Traeth/Chwaraeon Dwr - traeth Tywyn/Bae Ceredigion; afon Dysynni a Llyn Tal-y-llyn gerllaw. Dyma'r mathau o ddigwyddiadau/rasys y gellid eu denu yma: Nofio Agored; Syrffio Barcud; Canŵio; Rhwyf-fyrddio.
- Cerdded – mae Llwybr Arfordir Cymru yn mynd heibio'n agos at y dref; yn ddiweddar enwyd Cylchdaith Dysynni o Dywyn i Frynchrug yn un o'r 30 Taith Gerdded Haf orau ym Mhrydain gan bapur newydd yr 'I'.
- Beicio mynydd/gweithgareddau antur - mae'r sector gweithgareddau awyr agored yn datblygu, oherwydd bod y dref yn gymharol agos at lwybrau beicio poblogaidd yng Nghoed y Brenin a Bwlch Nant yr Arian, ac wrth i rai o brif gyrchfannau Eryri fynd yn brysurach, mae ymwelwyr yn mentro ymhellach.

Datblygiad posibl arall yw twristiaeth werdd, gyda chynghor y dref wedi datgan argyfwng hinsawdd ac yn sefydlu'r nod i Dywyn fod yn dref ddi-blastig. Mae Grŵp Tywyn Gwyrddach yn ymchwilio'r posibilrwydd o sefydlu man gwefru trydan cyflym i geir yn Nhywyn ac yn gyffredinol mae'n awyddus i annog twristiaeth fwy cynaliadwy. Mentrau eraill o dan ystyriaeth yw rhaglen glanhau'r traeth, gwaith y mae'r grŵp gwirfoddol, Gwarchodwyr Traeth Tywyn, yn ei wneud yn barod; a darparu mwy o fannau ail gylchu ar y promenâd.

Biosffer UNESCO Dyfi

Efallai y bydd Biosffer UNESCO Dyfi yn cael ei ymestyn i gynnwys Tywyn, a byddai, o ystyried y datblygiadau a nodwyd eisoes, yn cyfrannu'n aruthrol at hygredd twristiaeth werdd Tywyn.

Hefyd mae Tywyn y tu mewn i Ardal Gadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau. Mae'n ardal o 230 cilomedr o arfordir, gyda chreigresi, traethellau, gwastatiroedd lleidiog, morlynnoedd ac ogofau môr. Mae'n ymestyn o Ben Llŷn yn y gogledd i greigresi'r Sarnau yn y de, ac yn gynefin i nifer fawr o rywogaethau morol gan gynnwys dolffiniaid trwynbwl, morloi llwyd a'r dyfrgi Ewropeaidd.

Dehongli, a hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol

Gweithgaredd Cymdeithas Hanes Tywyn a'r Cylch:

Llwybrau Cerdded y Dref

Cafodd y Gymdeithas Hanes grant o £9,800 gan y Loteri Genedlaethol a £1275 gan Gyngor Tref Tywyn i ymchwilio i hanes y dref a'i ddehongli drwy gyfres o lwybrau cerdded. Lansiwyd

y ddwy daflen gyntaf a phum panel arddangos, sydd i'w darganfod ar hyd y llwybrau yn y dref ac ar hyd glan y môr, ym mis Gorffennaf.

Amgueddfa Hanes y Dref

Mae'r Gymdeithas Hanes yn awyddus i gasglu amrywiol ddeunyddiau a gwrthrychau archifol, sy'n eiddo i'w haelodau a thrigolion yn gyffredinol, er mwyn sefydlu amgueddfa hanes yn y dref, ac i adlewyrchu hanes datblygiad yr anheddle o gyfnod Sant Cadfan hyd heddiw. Yr hen orsaf drenau fyddai'r lleoliad delfrydol, a'r dewis cyntaf, ond nid yw cynlluniau'r perchnog, Teithio Cymru, ar gyfer yr adeilad yn amlwg.

Rheilffordd Tal-y-llyn

Mae Rheilffordd Tal-y-llyn yn chwarae rhan allweddol yng ngwaith dehongli'r diwydiant llechi a hanes parhaus y lein fach. Agorwyd y lein yn 1865 i gludo llechi o chwareli Bryn Eglwys i Dywyn. Ym 1951, hon oedd y rheilffordd gyntaf yn y byd i gael ei diogelu gan wirfoddolwyr fel rheilffordd dreftadaeth.

Mae'r Rheilffordd yn parhau i ddarganfod ffyrdd newydd i adrodd ei hanes drwy adfer ei hadeiladau diwydiannol hanesyddol: mae prosiect Tŷ Dwr, y man codi dŵr, sydd angen arian, yn mynd rhagddo; mae cynllunio i ail-ddefnyddio'r stordy powdwr gwn fel ystafell gyfryngau; ac fe all fod cyfleoedd pellach i greu cwt hygyrch newydd yn y Lanfa i ddangos rhai o'r wagenni hanesyddol. Mae posibilrwydd hefyd y gellir agor Gweithdai Pendre i'r cyhoedd, gan gynyddu'r cyfleoedd i ddehongli'r rheilffordd dreftadaeth ymhellach.

Cyfeiriadedd a chysylltiadau

Mae'r llwybrau cerdded newydd yn y dref a'r paneli gwybodaeth cysylltiedig yn ei gwneud yn haws i ymwelwyr grwydro'r dref.

Mae poblogrwydd cynyddol gwyliau cerdded yn yr ardal yn cyfrannu at ddefnydd cynyddol o lwybrau newydd yn yr ardal ac yn y bryniau y tu hwnt. Mae yna ffyrdd gwyrdd a hen dramffyrdd sydd angen gwell arwyddion. Hefyd mae nifer o lwybrau cerdded yn cysylltu gyda llinell Rheilffordd Tal-y-llyn a gallai'r arwyddion fod yn well.

Mae galw am un llwybr penodol, sef llwybr beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi, a fyddai'n dilyn llwybr yr arfordir, gan fod y ffordd fawr yn beryglus i feicwyr. Byddai hwn yn llwybr beicio llawer mwy dymunol. (Mae Llwybr Beicio Cenedlaethol rhif 82 yn cychwyn o Dywyn ac yn mynd drwy'r bryniau i Fachynlleth)

Cyfleusterau Hamdden

Parc Sgrialu - comisiynodd Cyngor Tref Tywyn dri dylunydd i gyflwyno dyluniadau cysyniadol ar gyfer parc sgrialu, ar gyfer Maes Parcio Cae Chwarae Ffordd Cambrian. Byddai hwn yn adnodd am ddim i'r gymuned yn bennaf.

Parc Coedlan Ynys Maengwyn – coedlan fach gyda mynediad trwy Barc Carafanau Ynys Maengwyn, yn arwain at Lwybr Dysynni, o Dywyn i Frynchrug ac at Aber Dysynni.

Sefydlwyd ymddiriedolaeth annibynnol yn ddiweddar a gobeithir y bydd yr ymddiriedolaeth newydd yn datblygu gweledigaeth newydd ar gyfer yr ardal. Yn y gorffennol Cyngor Tref Tywyn oedd piau'r parc carafanau a'r goedlan ond achosodd hyn beth anghydfod yn ymwneud â dosbarthu'r incwm. Nod yr ymddiriedolaeth yw cynnal y goedlan; diogelu'r ardal agored ar gyfer trigolion; a'r gobaith hefyd yw datblygu cyfleoedd newydd, megis digwyddiadau awyr agored, ac adloniant yn yr ardd furiog.

7 Asesiad ymwelwyr

Yn yr adran hon rydym yn asesu'r hyn y mae Tywyn yn ei gynnig i ymwelwyr er mwyn deall y cyfleoedd a'r heriau yn well wrth ddatblygu'r pentref i'r dyfodol.

Cynllun/Cyrraedd

Saif Tywyn ar arfordir deheuol Bae Ceredigion ar y ffordd A493.

Mae yna adeiladau hardd Sioraidd yn yr hen dref, sydd tua hanner milltir o'r traeth. Mae'r casgliad o adeiladau o gwmpas Lawnt y Coleg/Sgwâr Corbett – Sinema'r Llusern Hud, yr Ystafelloedd Cynnull gynt; Eglwys Sant Cadfan; a'r Corbett Arms, sydd, yn anffodus, angen cryn waith adfer – yn hynod ddeniadol.

Tuag at y traeth, mae'r adeiladau yn fwy cyfoes. Mae ardal y promenâd yn ddeniadol iawn ac yn rhedeg ar hyd y traeth i gyd. Mae mynediad i gadeiriau olwyn a sgwteri yn hwylus oherwydd y meysydd parcio helaeth a'r ardaloedd pafin eang ar hyd y promenâd, serch hynny, mae'r ymddangosiad yn gyffredinol yn eithaf caled. Er bod blodau a phlanhigion yn gwneud rhai ardaloedd yn ddeniadol, gallai'r ardal hon elwa o gael mwy o wyrddni.

Gwybodaeth i Ymwelwyr: cyfeiriadedd /arwyddion/gwybodaeth i dwristiaid

Nid oes Canolfan Groeso yn Nhywyn. Mae taflenni gwybodaeth i ymwelwyr ar gael yn llyfrgell y dref, ond mae'r oriau agor yn gyfyngedig.

Mae gan swyddfa docynnau a siop Rheilffordd Tal-y-llyn lu o daflenni gwybodaeth am Dywyn a'r ardal o gyfagos, ond eto yn ddibynnol ar oriau agor y siop.

Yn ardal y promenâd, mae nifer o wahanol fyrddau gwybodaeth gyda gwybodaeth leol i dwristiaid; mae paneli gwybodaeth llwybrau'r dref a osodwyd yn ddiweddar yn llawn gwybodaeth ac yn helpu'r ymwelydd i grwydro o gwmpas adeiladau a nodweddion hanesyddol y dref.

Cyfleusterau

Cyfleusterau Cyhoeddus: mae toiledau cyhoeddus ger sinema'r Llusern Hud yng nghanol y dref, a ger y lawnt bowllo wrth y traeth.

Caffis/bwytai: mae sawl caffi yng nghanol y dref; ymysg y rhai mwyaf poblogaidd y mae Salt Marsh Cafe/Bar; bwyty Salt Marsh Kitchen sy'n fwyty pysgod ar restr Michelin, ac ar agor gyda'r nos yn unig; mae bwyty Proper Gander ar agor amser cinio a gyda'r nos. Ar lan y môr, mae yna nifer o gaffis glan môr traddodiadol a thafarn y Victorian Slipway.

Atyniadau a Gweithgareddau i Ymwelwyr

Rheilffordd Tal-y-llyn yw'r rheilffordd dreftadaeth gyntaf yn y byd i gael ei diogelu ac mae'n denu oddeutu 50,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'n daith saith milltir o Dywyn i Nant Gwernol, drwy fryniau Meirionnydd uwchlaw Abergynolwyn, a Chaban y Chwarelwyr sy'n gweini bwyd cartref. Mae'r trenau'n rhedeg yn ddyddiol, o fis Ebrill tan ddiwedd Hydref, o 10.00 y bore ymlaen; mae'r trên olaf yn gadael Glanfa Tywyn am 3.45 a Nant Gwernol am 5.07. Agorwyd y lein ym 1865 ac ym 1951 cymerodd y Gymdeithas Diogelu gyfrifoldeb drosti, sy'n golygu mai hon yw'r rheilffordd gyntaf yn y byd i gael ei rhedeg gan wirfoddolwyr.

Yma yn **Amgueddfa'r Lein Fach** yng Ngorsaf Glanfa Tywyn, fe ddehonglir 200 mlynedd o hanes leiniau bach ac mae'n arddangos deunydd ar bron i 80 lein fach ym Mhrydain, gan gynnwys locomotifau, wagenni, signalau a phlatiau enwau o'r Rheilffyrdd Cymreig; gwaith papur, offer signal a thocynnau. Hefyd ail-grewyd stydi'r Parchedig W. Awdry lle ysgrifennodd gyfres o lyfrau plant am reilffyrdd.

Yn **Sinema'r Llusern Hud Tywyn**, dangosir y ffilmiau diweddaraf a chyflwyniadau ffrydio o ddigwyddiadau byw gan ddefnyddio'r dechnoleg sinema fwyaf diweddar, sydd yn denu **cynulleidfa o dros 20,000** y flwyddyn. Fe'i hadeiladwyd ym 1893 yn wreiddiol fel Ystafelloedd Cynnull y dref ac fe'i defnyddiwyd ar gyfer digwyddiadau cymunedol ac amrywiol berfformiadau; nawr, mae ganddi ddau lwyfan ar gyfer digwyddiadau byw, a bar. Cofnodwyd hanes yr adeilad fel sinema - mae tystiolaeth fod dangosiadau ffilm yma ym 1900 sy'n golygu fod y Llusern Hud yno ar drothwy oes y sinema yn y Deyrnas Unedig.

Adeiladwyd **Eglwys Sant Cadfan** yn yr unfed ganrif ar ddeg ac mae'n adnabyddus am ei phensaernïaeth Romanésg a'i strwythur Normanaidd. Daw ymwelwyr o bedwar ban y byd i weld yr eglwys a Charreg Cadfan (croes garreg sy'n dyddio o'r nawfed ganrif o leiaf a hon yw'r enghraifft hynaf o Gymraeg ysgrifenedig). Mae'r adeilad wedi ei restru'n Radd I.

Mae gan **Barc Hamdden Tywyn** nifer o gyfleusterau gan gynnwys cwrs pytio 18 twll, cwrs golf gwyllt 15 twll, lawnt bowlio, chwe chwrt tennis, sgïls, tennis bwrdd, bwrdd pŵl a bwrdd shifflo.

Mae **Canolfan Hamdden Bro Dysynni** ar agor saith diwrnod yr wythnos ac mae ganddi bwl nofio, pedwar cwrt badminton, dau gwrst sboncen, ystafell stêm, sawna, ystafell ffîrwydd, cyrtiau tennis a chae aml bwrpas awyr agored maint llawn â llif oleuadau.

Digwyddiadau yn Nhywyn

Digwyddiadau Rheilffordd Tal-y-llyn

Mae'r Rheilffordd yn cynnal cyfres o amrywiol ddigwyddiadau drwy'r flwyddyn, gan gynnwys Rasio'r Trên, digwyddiad blynyddol hynod boblogaidd ym mis Awst, pan fydd y cystadleuwyr yn rasio'r trêen ar hyd pedair rhan wahanol o gefn gwlad, yn amrywio o 3.5 milltir i 14 milltir, gyda'r elw yn mynd at elusennau a gefnogir gan y Clwb Rotari. Cynhelir ymgynulliad ceir Land Rover; Gŵyl Gwrw, Seidr a Gin; teithiau trêen stêm yr hwyrnos; Wythnos y Lluoedd Arfog; digwyddiadau llofruddiaeth ddirgel a rhai tymhorol gan gynnwys Calan Gaeaf, Siôn Corn, noson garolau a mins peis, a gweithgareddau'r Pasg.

Gŵyl Fwyd Tywyn – wedi ei sefydlu'n gymharol ddiweddar, fe'i cynhelir ddechrau mis Awst

Gŵyl Gerddoriaeth Fyw Tywyn - gŵyl gerddoriaeth fyw ar y promenâd, penwythnos Gŵyl Banc mis Awst.

Llety

Mae'r math o lety sydd ar gael yn y dref yn eithaf cyfyngedig. Nid oes yr un gwesty mawr; dim ond naw gwesty bach, sydd rhyngddynt yn cynnig 27 o stafelloedd, gyda'r mwyafrif yn stafelloedd dwbl gydag ystafell ymolchi en suite; ond mae gan rai ohonynt ystafelloedd sengl a rhai i deuluoedd.

Mae **pymtheg maes carafanau** yn agos at ganol y dref gyda chymysgedd o garafanau sefydlog, sialés, carafanau symudol a phebyll. Mae **wyth parc arall** lle mae'r perchnogion yno gan amlaf.

Mae **digonedd o lety hunan ddarpar** - rhestrir 31 llety ar Visit Tywyn, sy'n darparu cyfanswm o 200 gofod gwely.

Proffil ar-lein

Mae gan Dywyn broffil amlwg iawn ar-lein yn sgil nifer o wefannau. Er bod y diwyg yn dda, eu bod yn cael eu diweddarau, a'u bod yn creu argraff gadarnhaol o'r dref, maent yn tueddu i gyflwyno'r un wybodaeth heb unrhyw gydberthynas. Felly, mae pethau'n cael eu dyblygu a allai arwain at gamddealltwriaeth ymysg ymwelwyr.

Mae'r wefan www.visit-tywyn.co.uk <<http://www.visit-tywyn.co.uk>> yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r ddarpariaeth llety, y cynnig bwyd a hamdden, gwybodaeth am ddigwyddiadau, teithio a chyfeiriadedd. Mae'r wefan wedi'i chyflwyno'n dda ac mae'n creu argraff ffafriol; mae gwe ddarllediad byw o'r traeth sydd yn golygu y gall defnyddwyr edrych ar y traeth drwy'r dydd gyda'r nod o'u denu i Dywyn. Er bod y wefan yn llawn gwybodaeth, nid oes modd gadael adolygiadau ar-lein, a fyddai'n sicrhau fod y wefan yn cyflwyno trosolwg cyt-bwys a chadarnhaol bob amser.

Mae gwefan y Siambr Fasnach a Busnes, www.tywynctc.co.uk <<http://www.tywynctc.co.uk>> yn cynnig trosolwg o'r ddarpariaeth llety, bwyd a diod, adloniant, digwyddiadau, atyniadau, gwasanaethau a siopau; mae ganddi hithau we ddarllediad byw o'r traeth.

Mae gwefan www.tywyntimes.co.uk yn cyflwyno gwybodaeth ar ddigwyddiadau yn Nhywyn, bwyd a diod, llety, siopau a gwasanaethau; nid yw wedi ei ddiweddarau a digwyddiadau 2016 yw'r rhai mwyaf diweddar.

Mae gan Ddigwyddiadau Tywyn (Tywyn Events) dudalen Facebook (www.facebook.com/pg/Tywyn-Events-Organisation) sydd yn hyrwyddo digwyddiadau cyfredol o gwmpas y dref. Mae'n lle da i gael gwybodaeth, ond mae'n gweithio'n fwy fel fforwm na thudalen ddigwyddiadau ac mae'n caniatáu i bobl wneud sylwadau ar bostiadau; uwch lwytho lluniau, a chyfrannu at sgysiau ar-lein. Mae'r dudalen yn cael ei diweddarau ac mae'r lluniau a'r sylwadau'n creu argraff dda o Dywyn a'r digwyddiadau a ddangosir.

Mae gan Caru Tywyn (Love Tywyn) hefyd dudalen Facebook – www.facebook.com/LoveTywyn sy'n denu 15,000 o ddilynwyr.

Mae gan Gyngor Tref Tywyn a Chlwb Rotari Tywyn bresenoldeb ar-lein gyda'u gwefannau eu hunan a gwybodaeth am eu sefydliadau a'u digwyddiadau eu hunain.

Adolygiadau gan Ymwelwyr

Mae nifer o adolygiadau yn sôn bod y traeth yn hyfryd a glân ond braidd yn dawel; a rhai yn sôn ei fod yn wag. Mae nifer o ymwelwyr yn gweld hyn fel peth cadarnhaol, ond efallai bod hyn yn tynnu sylw at y ffaith nad yw Tywyn yn cael cymaint o ymwelwyr â thraethau eraill.

Dywed adolygiadau cadarnhaol fod 'y traeth yn braf, yn lân, gyda golygfeydd hyfryd ... er bod y dref yn fach mae ganddi nifer o gaffis a bwyd ardderchog, ambell dafarn a dwy arch-farchnad'. (www.airbnb.co.uk)

Mae'r rhelyw o adolygiadau Trip Advisor yn canmol y traeth a'r cyfleusterau gerllaw, gyda dau a gyflwynwyd yn ddiweddar yn dweud:

- "Aethom i nifer o draethau o gwmpas Tywyn. Hwn yn sicr oedd y gorau: tywodlyd, dŵr bas, dim gormod o dwristiaid eraill, ger tref fechan a chanddi bromenâd. Tafarn a llefydd eraill i fwyta ddim rhy bell i ffwrdd.
- 'Un o draethau gorau'r Deyrnas Unedig; godidog, traethau heb eu difetha, heb ysbwriel; tywod a dŵr hyfryd.'

Ond, mae yna hefyd adolygiadau negyddol o'r dref, ei chyfleusterau, a'r argraff ei bod wedi 'gweld dyddiau gwell', gydag ymwelwyr yn nodi 'nad oes yna lawer i'w wneud yn Nhywyn o ran atyniadau a fyddai'n eich cymell i ymweld', ac yn ei ddisgrifio fel 'lle a aeth yn angof, efallai ei fod yn le braf yn y 70au'.

8 Adeiladau a'r Amgylchedd Adeiledig

Rydym wedi cynnal **Asesiadau o'r Dreftadaeth Adeiledig**, gan ystyried y meini prawf isod:

Diogelwch Statudol:

- Adeiladau rhestredig (yn ôl gradd: I, II*, II)
- Henebion Cofrestredig
- Adeiladau a nodweddion mewn Ardaloedd Cadwraeth.

'Statws mewn perygl':

- Fel y'u diffinnir gan gofrestr adeiladau mewn perygl Cadw (BAR) ar gyfer pob ardal unigol. Dyma'r dosbarthiadau:
 - Mewn Perygl
 - Bregus
 - Ddim mewn perygl
- Yn seiliedig ar archwiliad byr o'r tu allan (gan nodi os yw'r defnydd yn amlwg, os yw'r adeilad neu'r nodwedd yn ymddangos yn adfeiliedig neu'n fregus)

Cyd-destun treftadaeth y diwydiant llechi:

- Pwysigrwydd yng nghyd-destun treftadaeth diwydiant llechi'r ardal (er nad yw cwmpas y gwaith yn caniatáu asesiadau treftadaeth nac ymchwil ar adeiladau unigol neu safleoedd).
- Adborth o'r broses ymgynghori am amgyffrediad pobl leol o bwysigrwydd adeilad, nodwedd neu safle.
- Darparu dewis cynrychiadol o adeiladau a oedd yn cefnogi'r diwydiant llechi a'u cymunedau.

Potensial adfywio a dehongli:

- Potensial adeilad unigol neu safle i gyfrannu at adfywio'r ardal, darparu cyfleoedd dehongli arwyddocaol neu gyfleoedd eraill.

Trafodir ein canfyddiadau yn llawn yn Atodiad 5. Isod ceir crynodeb o'r prosiectau amgylchedd adeiledig yr ydym wedi'u blaenoriaethu.

Nid y rhain yw'r rhai mwyaf arwyddocaol o reidrwydd, ond y rhain sydd yn cydbwyso arwyddocâd (yng nghyd-destun y diwydiant llechi) gyda'r posibilrwydd o gyfrannu at adfywio cymunedol sylweddol. Adnabuwyd y safleoedd blaenoriaeth uwch fel a ganlyn:

1. **Gwesty'r Corbett Arms a'r adeiladau y tu allan.** Hwn yw'r prif adeilad rhestredig yn y dref sydd dan fygythiad, mae hefyd strwythur amlwg ac arwyddocaol sydd ar hyn o bryd yn creu argraff wael o Sgwâr Corbett. Mae ei gyflwr yn prysur ddirywio ac mae angen gwneud rhywbeth ar fyrder. Yn y cefn mae nifer o adeiladau gyda phosibiliadau o ran adfywio. Angen trafodaeth ar frys gyda'r perchennog ac argymhellir cynnal Gwerthusiad o'r Dewisiadau.
2. **Rheilffordd Tal-y-llyn, Gweithfeydd Pendre.** Mae'n un o'r adeiladau mwyaf arwyddocaol â chysylltiadau cryf gyda'r diwydiant llechi. Mae cymeriad gwreiddiol y siediau Fictoraidd a'r gweithdai yn dal i'w weld i raddau helaeth ac mae cyfle i'w agor i'r cyhoedd a chynulleidfa ehangach.

3. **Gorsaf Tywyn.** Mae'r hen orsaf drenau yn adeilad amlwg mewn lleoliad cyfleus. Mae ganddi'r potensial i gyflawni nifer o wahanol swyddogaethau buddiol i'r dref. Un awgrym yw sefydlu amgueddfa hanes y dref ac argymhellir Gwerthusiad o'r Dewisiadau.
4. **Gorsaf y Lanfa, Lleiniau Trawslwytho a glanfa llwytho llechi.** Mae'r leiniau trawslwytho rhwng Tal-y-llyn a'r brif lein yn hynod o arwyddocaol ac yn gyfle gwych i ddehongli'r diwydiant llechi a thrawsgludo yn y dref.

9 Y Prif Heriau a'r Cyfleoedd

Yn dilyn ein hymgyngoriad a'n hymchwil, mae'n amlwg fod Tywyn yn wynebu rhai heriau sylfaenol a bydd angen mynd i'r afael â'r rhain os yw'r dref am wneud y mwyaf o'r budd a ddaw gydag enwebiad Safle Treftadaeth y Byd. Yma, crynhown yr heriau allweddol yr ydym wedi'u hadnabod yn y pentref a'r cyfleoedd a fyddai'n galluogi i'r pentref fynd i'r afael â nhw.

Dadansoddiad SWOT (CGCB)

Mae'r dadansoddiad SWOT (CGCB) yn asesu Tywyn o safbwynt yr ymwelwyr ac aelodau o'r gymuned, gan grynhoi cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r hyn sydd ar gael i'r ymwelydd a'r ddarpariaeth i drigolion:

<u>CRYFDERAU</u> <u>CYMUNED</u> • Mae aelodau hŷn y gymuned a symudodd yma i ymddeol yn mwynhau'r ymdeimlad o gymuned a ddaw yn sgil y gwahanol glybiau a mudiadau yn y dref. • Mae rhai teuluoedd ifanc yn symud i mewn i'r dref, sawl un gyda chysylltiad teuluol yn dilyn gwyliau pan oeddent yn blant. Hoff o'r heddwch a ffordd o fyw'r traeth. • Mewn rhai ffyrdd, mae ei natur anghysbell yn dod â phobl at ei gilydd ac yn creu ymdeimlad fod y lle a'r gymuned yn unigryw. • Mae nifer o fentrau yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar faterion amgylcheddol a'r angen i'r gymuned ofalu am harddwch naturiol eithriadol y lle.	<u>GWENDIDAU</u> <u>CYMUNED</u> • Prinder cyfleodd cyflogaeth yn golygu fod llawer o bobl ifanc yn gadael y dref • Gall y ffaith ei fod ymhell o bobman, ynghyd â'r diffyg cysylltiadau, olygu fod safbwyntiau a dadleuon hanesyddol yn pennu'r rhaglen gymunedol • Mae yna rywffaint o densiwn rhwng gwahanol grwpiau ar sail pwy sy'n llywio'r agenda ar gyfer datblygiad cymunedol.
<u>TWRISTIAETH</u> • Adolygiadau cadarnhaol dros ben o'r traeth – ei lendid, ei dywod a'i ddŵr bas. • Nifer o atyniadau ac adnoddau ar gyfer ymwelwyr, gweithgareddau ar gyfer pob tywydd ac ar gyfer ystod eang o ymwelwyr a grwpiau. • Digon o lety hunan ddarpar, yn arbennig mewn meysydd carafanau a gwersylla. • Yr ardal yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel cyrchfan gwyliau cerdded a chwaraeon antur. • Mae gan ganol y dref hanesyddol adeiladau nodedig a deniadol. • Proffil ar-lein y dref yn eang gyda gwefannau llawn gwybodaeth yn cael eu cynnal yn dda	<u>TWRISTIAETH</u> • Nid yw'r traeth yn cael ei hyrwyddo gymaint, felly ddim mor adnabyddus â thraethau eraill yn yr ardal. • Nid yw'r posibiladau eang i ddatblygu digwyddiadau chwaraeon a gweithgareddau dŵr/traeth wedi ei gwireddu'n llawn eto. • Mae angen i'r dref ddatblygu hunaniaeth fwy cyfoes ar gyfer glan y môr/chwaraeon dŵr; datblygu brand marchnata newydd • Gellid hyrwyddo'r canol hanesyddol yn well • Mae cyflwr gwael y Corbett Arms yn cael effaith niweidiol ar ymddangosiad y dref yn gyffredinol ac mae angen sylw ar fyrder.
<u>TWRISTIAETH A CHYMUNED</u> • Mae Sinema'r Llusern Hud yn adnodd diwyllianol, cymunedol a thwristiaeth werthfawr. • Mae'r gyfres o Gyngherddau Wurlitzer yn Neuadd Pendre yn nodwedd unigryw, ac yn boblogaidd gyda thwristiaid ac aelodau hŷn y gymuned.	<u>TWRISTIAETH A CHYMUNED</u> • Mae angen buddsoddi yng nghanol y dref/ei diweddaru, yn arbennig o gwmpas Lawnt y Coleg. • Mae bwlb yn datblygu rhwng y rhai sydd eisiau i'r dref fod yn gyrchfan ymddeol a'r rhai sydd am ddenu marchnad gweithgareddau antur/dŵr iau.

<u>CYFLEOEDD CYMUNED</u>	<u>BYGYTHIADAU/ HERIAU CYMUNED</u>
- Mae'n bosib y bydd Statws Treftadaeth Byd UNESCO a'r cynnydd mewn twristiaeth yn datblygu'r economi (yn sgil gwariant uwch gan ymwelwyr) a chyfleoedd cyflogaeth newydd a dylid manteisio ar y cyfleoedd i'r eithaf. - Gallai Ymddiriedolaeth Newydd Ynys Maengwyn ychwanegu at apêl y safle a chreu rhaglen ddeniadol o ddigwyddiadau i'r gymuned.	- Pobl ifanc heb fynediad at ddatblygu sgiliau a gwaith ac felly'n teimlo nad ydynt yn rhan o'r gymuned. - Cynladwyedd economaidd a dirywiad cyffredinol trefi mewn ardaloedd gwledig. - Hinsawdd economaidd a gwleidyddol ansicr
TWRISTIAETH - Byddai statws Biosffer Dyfi a Statws Treftadaeth Byd UNESCO yn denu math gwahanol o ymwelwyr - Angen dathlu a chynyddu dehongli treftadaeth y diwydiant llechi yn y dref - Gallai twristiaeth wyrdd, gynaliadwy drawsnewid delwedd y dref a helpu datblygu sector dwristiaeth amgen. - Ehangu'r galw am weithgareddau antur/awyr agored	TWRISTIAETH - Gwyliau glan môr traddodiadol yn colli eu hapêl - Llai o alw am wyliau mewn meysydd carafanau - Tywyn ddim cadw i fyny gyda'r ffasiwn ddiweddaraf mewn twristiaeth
<u>TWRISTIAETH A CHYMUNED</u> - Enwebiad am Statws Safle Treftadaeth Byd UNESCO - Wrth greu marchnad dwristiaeth newydd, mae'n bosibl datblygu galluoedd pobl ifanc i fynd yn hyfforddwyr/arweinwyr teithiau cerdded ac ati. - Byddai agwedd fwy amgylcheddol glên o fudd i ymwelwyr a thrigolion.	<u>TWRISTIAETH A CHYMUNED</u> - Colli cyfleoedd i ddatblygu'r diwydiant twristiaeth a'r budd a ddaw yn sgil cynnydd mewn gwariant gan ymwelwyr. - Rhwysr rhwng y rhai sydd eisiau annog twristiaeth a chyfleodd masnachol, a'r rhai sydd am i Dywyn aros fel y mae.

10 Casgliadau ac argymhellion

Yn dilyn ein hymgyngoriad a'n hymchwil, sy'n cynnwys yr archwiliad o'r gymuned a'r asesiad ymwelwyr, rydym wedi adnabod y themâu canlynol fel y blaenoriaethau adfywio i Dywyn:

Yma rydym yn ystyried yr heriau a'r cyfleoedd i'r dref, parthed y blaenoriaethau hyn:

- Gwella adnoddau ac isadeiledd ymwelwyr** er budd ymwelwyr a'r gymuned.
- Adeiladu ar **brosiectau dehongli, hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol sy'n bodoli** ac annog gwaith dehongli ehangach o hanes y dref.
- Datblygu **rhwydwaith ehangach o lwybrau cerdded a beicio gydag arwyddion.**

- Darparu **adnoddau hamdden** newydd er bydd y gymuned.
- Sicrhau fod **adeiladau hanesyddol y dref yn cael eu gwarchod a'i hadeiladau eiconig yn cael eu hadfer a'u hailddefnyddio** at ddefnydd twristiaeth a'r gymuned.

Cyfleusterau ymwelwyr ac isadeiledd

- Mae darpariaeth yn Nhywyn ar gyfer ystod gymharol eang o ymwelwyr, gan gynnwys selogion y rheilffordd, syrffwyr, cerddwyr, teuluoedd ar wyliau glan môr traddodiadol. Mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn eithaf da, ond o ran datblygu i'r dyfodol, efallai bod angen diweddarau'r cynnig i ymwelwyr:
- Yr her i Dywyn yw sut ail-ddiffinio'r ei gynnig i dwristiaid yng nghyswllt ei asedau naturiol eithriadol, twristiaeth gynaliadwy a'r cyfloed a ddaw yn sgil chwaraeon antur a gweithgareddau eraill.
- Mae'r isadeiledd twristiaeth yn ddigon gwydn, ond efallai bod angen mynd i'r afael â newidiadau a thueddiadau newydd yn y byd twristiaeth a'r gostyngiad yn y galw am wyliau traddodiadol mewn carafán ger glan y môr
- Gallai cyfres o ddigwyddiadau newydd – rasys chwaraeon dŵr; heriau antur a chyfleoedd eraill ychwanegu at y cynnig i dwristiaid.

Dehongli, hunaniaeth gymdeithasol a diwylliannol

- Mae gwaith dehongli trefnus yn digwydd yn Nhywyn, gyda Rheilffordd Tal-y-llyn a'r Gymdeithas Hanes yn darparu gwybodaeth a deunyddiau arddangos.
- O ran y cyd-destun hanesyddol, gellid gwneud mwy i gyflwyno'r cyfoeth hanesyddol sydd yn Nhywyn - dylid rhoi mwy o sylw i Garreg Cadfan a'i pherthnasedd i'r iaith Gymraeg; y cyfoeth a ddaeth yn sgil y diwydiant llechi a diwydianwyr megis Corbett; ac adeiladau a datblygiad y canol hanesyddol.

Cyfeiriadedd a Chysylltiadau

- Gyda'r diddordeb cynyddol mewn cerdded a gweithgareddau awyr agored, gallai Tywyn fanteisio ar y sector hwn o'r farchnad dwristiaeth. Mae yna nifer o lwybrau beicio a cherdded sydd angen eu harwyddo'n well
- Dylid creu llwybr beicio newydd ar hyd yr arfordir

Adnoddau Hamdden

- Mae darparu cyfleusterau hamdden yn allweddol er mwyn sicrhau fod pobl ifanc yn aros yn y gymuned.
- Mae nifer o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn chwaraeon ond wrth i'r ddarpariaeth ar gyfer twristiaid ehangu gallai hyn arwain at gyfleoedd cyflogaeth newydd fel arweinwyr gweithgareddau.

Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol

Mae yna nifer o adeiladau arwyddocaol a nodweddion adeiledig sydd yn haeddu sylw pellach o safbwynt adnewyddu, ail-ddefnyddio a photensial adfywio. Mae mwy o wybodaeth ac asesiad cychwynnol, yn ddibynnol ar drafodaeth bellach gyda'r mudiadau cadwraeth perthnasol a swyddogion, yn yr Astudiaeth Amgylchedd Adeiledd Hanesyddol (Atodiad 5).

Yn dilyn adolygiad o adeiladau sydd wedi eu diogelu (h.y. wedi eu rhestru neu wedi eu cofrestru), safleoedd treftadaeth a'r rhai sydd heb eu diogelu hyd yma, mae nifer o ddarpar brosiectau allweddol wedi dod i'r amlwg.

Nid y rhain yw'r rhai mwyaf arwyddocaol o reidrwydd, ond y rhain sydd yn dod â chydbwysedd rhwng arwyddocâd (yng nghyd-destun y diwydiant llechi) a'r posibilrwydd o gyfrannu at adfywio cymunedol sylweddol. Manylir arnynt yn Adran 8/Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol ac yn y Cynllun Gweithredu.

Sefydliadau yn y Gymuned

Mae nifer o grwpiau cymunedol yn Nhywyn a phob un ohonynt yn gweithio er budd ei gymuned arbennig ei hun. Gall hyn feithrin safbwyntiau di-syfl, a chan fod nifer o unigolion yn chwarae rhan allweddol mewn sawl grŵp, mae'n anodd ar brydiau gwybod pa grŵp sy'n cael ei gynrychioli.

11 Ffynonellau ariannu posib

Rydym wedi adnabod y ffynonellau ariannu canlynol posib; ceir rhagor o fanylion am y ffynonellau hyn yn y ddogfen ariannu atodol (ynghyd â ffynonellau ariannu eraill llai), i'w hystyried wrth i'r prosiectau a restrwyd cael eu datblygu ymhellach:

- Cais Twf Gogledd Cymru
- Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig
- Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)/Cronfa Busnes Micro a Bach (MSBF)
- Datblygu Cynllun Rhodd Ymwelwyr
- Arian Loteri:
 - Gwobrau i Bawb y Loteri Genedlaethol
 - Pawb a'i Le (Grantiau Canolig a Mawr)
 - Rhaglen Wledig Rownd 2
 - Y Gronfa Dreftadaeth (CTL gynt)
- Rhaglen Datblygu Gwledig/ Arloesi Gwynedd Wledig (LEADER)
- Cronfa Dreftadaeth Bensaernïol
- Rhaglen Cartrefi Gwag
- Grantiau Cymorth Cartrefi Gwag
- Adfywio Llywodraeth Cymru
- Rhaglen Adnoddau Cymunedol/Llywodraeth Cymru

- Economi Sylfaenol/Llywodraeth Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Ymddiriedolaeth Peter Saunders
- Cronfa Celfyddydau Cymunedol Gwynedd, Cyngor Gwynedd

Mae'r prosiectau hyn wedi eu hadnabod mewn ymgynghoriad gyda'r gymuned leol a budd-ddeiliaid, ond bydd eu gweithredu a'u blaenoriaethu, yn ôl y Cynllun Gweithredu, yn ddibyn-nol ar adnabod corff arweiniol addas a sicrhau'r arian i gwblhau'r gorchwylion a adnabuwyd. Bydd y Cynllun Gweithredu'n cael ei adolygu'r flynyddol gan Gyngor Gwynedd a'r prif fudd-ddeiliaid.

Atodiad 1 Rhestr o unigolion/mudiadau'r ymgynghoriad

- Caru Tywyn
- Clwb Padlo Dysynni
- Cyngor Tref Tywyn
- Cymdeithas Hanes Tywyn a'r Cylch
- Eglwys Bedyddwyr Saesneg Tywyn
- Rheilffordd Tal-y-llyn
- Siambr Fasnach a Busnes Tywyn
- Tywyn Gwyrddach
- Lounge Holidays
- Clocktower Books
- Mike Stevens, Cyngorydd Sir Gwynedd
- Anne Lloyd Jones, Cyngorydd Sir Gwynedd
- Lindsey Edwards, Rheolwr, Tîm Adfywio Cyngor Gwynedd

Atodiad 2: Mynegai Amddifadedd Lluosog/Cyflogaeth yn ôl Sector

Mae'r tablau isod yn rhestru'r data'n llawn ar gyfer Tywyn 1 a 2, sy'n cynnwys sut mae'r rhengoedd yn cymharu gyda phob mesurydd ar draws Gwynedd gyfan:

Tywyn 1: Mynegai amddifadedd lluosog			
	Rheng yn gyffredinol (allan o 1909)	Cyffredinol %	Rheng yng Ngwynedd (allan o 73)
Cyffredinol	1447	50% lleiaf	63
Incwm	1339	50% lleiaf	47
Cyflogaeth	1407	50% lleiaf	47
Iechyd	1505	50% lleiaf	57
Addysg	1135	50% lleiaf	30
Mynediad i wasanaethau	535	20%-30% Mwyaf	43
Diogelwch cymunedol	1411	50% lleiaf	53
Amgylchedd Ffisegol	1657	50% lleiaf	58
Tai	863	30%-50% mwyaf	56

Tywyn 2: Mynegai Amddifadedd Lluosog			
Rheng yn gyffredinol (allan o 1909)	Cyffredinol %	Rheng yng Ngwyn- edd (allan o 73)	Rheng yn gyffredinol (allan o 1909)
Cyffredinol	799	30-50% mwyaf	14
Incwm	659	30-50% mwyaf	11
Cyflogaeth	805	30-50% mwyaf	10
Iechyd	623	30-50% mwyaf	5
Addysg	846	30-50% mwyaf	11
Mynediad i wasanaethau	967	50% lleiaf	58
Diogelwch cymunedol	1011	50% lleiaf	33
Amgylchedd Ffisegol	1191	50% lleiaf	27
Tai	521	20%-30% mwyaf	42

Cyflogaeth yn ôl sector

Dengys y tabl isod (ffynhonnell: data cyfrifiad, 2011) sectorau cyflogaeth aelodau'r gymuned sy'n weithgar yn economaidd; yn bennaf, ceir cyfrannau'r rhai a gyflogir ym mhob sector yn Nhywyn. Mae sawl sector cyflogaeth yn dangos gwriad sylweddol oddi wrth ffigwr cyfartalog Gwynedd, yn bennaf gweithgynhyrchu (sydd 5.5% yn uwch), gwasanaethau llety a bwyd (2.1% yn uwch), gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn (2.6% yn is), addysg (4.2% yn uwch), iechyd a gofal (3.2% yn uwch).

Gwelir y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol yw bod cyflogaeth mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, mwyngloddio, chwareli, ynni a dŵr, adeiladu, cysylltiadau, cyllid ac eiddo, proffesiynol, gwyddoniaeth a thechnegol, gweinyddiaeth a gwasanaethau cynnal, gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, ac addysg i gyd yn is na'r cyfartaledd yn Nhywyn. Mae cyflogaeth mewn gweithgynhyrchu, cyfanwerthu a manwerthu, trafnidiaeth a storio, llety a gwasanaethau bwyd, iechyd a gwaith cymdeithasol i gyd yn uwch na'r cyfartaledd.

Y sectorau gyda'r cyfrannau uchaf o gyflogaeth (dros 10%) yw iechyd a gofal cymdeithasol, cyfanwerthu a manwerthu, llety a gwasanaethau bwyd. Y sectorau isaf (3% neu'n is) yw mwyngloddio, chwarela, ynni a dŵr; proffesiynol, gwyddoniaeth a thechnegol; amaethyddiaeth, pysgota a choedwigaeth. Yn y tabl a ganlyn, ceir lefelau cyflogaeth ym mhob sector yn Nhywyn o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Ngwynedd.

Sector Cyflogaeth	Tywyn	Cyfartaledd Gwynedd
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota	2.8%	3.5%
Mwyngloddio, chwarela, ynni, dŵr	1.4%	2.6%
Gweithgynhyrchu	11.3%	5.8%
Adeiladu	8.4%	9.6%
Manwerthu a chyfanwerthu	15.5%	14.5%
Trafnidiaeth a storio	4.2%	3.4%
Llety & gwasanaethau bwyd	11.9%	9.8%
Cyfathrebu, cyllid, eiddo	3.2%	4.3%
Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	2.1%	3.7%
Gweinyddol a gwasanaethau cymorth	3.3%	3.5%
Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn	3.8%	6.4%
Addysg	8.4%	12.6%
Iechyd a gwaith cymdeithasol	17.9%	14.7%
Arall	5.6%	5.6%

Atodiad 3 Y Cyd-destun Strategol

Manylir ar gyd-destun strategol yr ardal yn y ddogfen *Cyd-destun Strategol ar gyfer Ardal y Llechi*, sydd ar wahân; ond dyma grynoded o'r polisiau sydd yn effeithio ar weithgareddau yn ardal Tywyn:

Cenedlaethol

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru
- Twristiaeth 2020 (Partneriaeth ar gyfer Twf), Llywodraeth Cymru
- Ffordd Cymru, Croeso Cymru
- Blynnyddoedd Thematig, Croeso Cymru
- Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
- Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol i Gymru, Cadw
- Ysbrydoli: Strategaeth Creadigrwydd a Chelfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru

Rhanbarthol/Sirol:

- Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023, Cyngor Gwynedd

- Cynllun Gwella Cyngor Gwynedd 2018 – 2023, Cyngor Gwynedd
- Datganiad Llesiant Cyngor Gwynedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Celfyddydau Gwynedd, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Ranbarthol, Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
- Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020, Cyngor Gwynedd
- Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Lleol

- Cynllun Economaidd Enwebiad Safle Treftadaeth Byd Llechi Cymru 2016 – 2020, Cyngor Gwynedd
- Ein heconomïau lleol, Cymunedau'n Adeiladu Ffyniant, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau

Atodiad 4 Proffil Twristiaid/Ymwelwyr

Dyma grynodeb o broffil ymwelwyr â Gwynedd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r math o ymwelwyr y mae Tywyn eisoes yn eu denu ac y gallai eu denu, yn ogystal â'r cymhelliant a'r rhesymau dros ymweld.

Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020

Prif amcanion Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013-2020 yw:

- ymestyn y tymor ymwelwyr
- cynyddu gwariant gan ymwelwyr
- gwella ansawdd profiad yr ymwelydd
- gwella'r uniad rhwng twristiaeth ac agweddau eraill o fywyd
- gwella'r amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol
- adeiladu a chynnal isadeiledd a mwynderau cyhoeddus o ansawdd
- darparu swyddi o ansawdd, sy'n talu'n dda drwy gydol y flwyddyn a datblygu sgiliau.

Cynhaliwyd arolwg ar-lein fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan ac, er mai ar gyfer Gwynedd gyfan y mae'r canfyddiadau, mae'r rhan fwyaf o'r materion a godwyd yn berthnasol i Dywyn; dyma'r prif faterion sydd angen ymdriniaeth:

- Gwell cyfleusterau i ymwelwyr
- Gwell cyfleusterau cyhoeddus, e.e. goruwchadeiledd ymwelwyr, megis llety gwyliau a gweithgareddau penodedig
- Elfennau isadeiledd, gan gynnwys ffyrdd a gofodau cyhoeddus eraill
- Atyniadau o ansawdd i ymwelwyr
- Darpariaeth parcio
- Gwell gwasanaethau lleol
- Mwy o gyfathrebu cyfeillgar gydag ymwelwyr

- Gwell siopau a gwell cyfleoedd i siopa

Dylai unrhyw ddatblygiad twristiaeth yn ardal Tywyn roi ystyriaeth i'r amcanion a'r materion a nodwyd uchod, er mwyn sicrhau for unrhyw brosiect ar lefel leol yn bwydo mewn i flaenoriaethau strategol y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan.

Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2013; anghenion ymwelwyr

Dyma **brif ganfyddiadau**’r arolwg anghenion ymwelwyr a gynhaliwyd yn 2013:

- Ychydig iawn o waith trefnu gwibdeithiau am y diwrnod sy'n digwydd; adroddodd 69% o ymwelwyr dydd i Gymru a holwyd nad oeddynt wedi defnyddio unrhyw wybodaeth wrth gynllunio eu trip
- Defnyddiodd 57% o ymwelwyr a oedd yn aros yn y DU wybodaeth ar-lein i gynllunio eu hymweliadau, sy'n cymharu â 18% a ddefnyddiodd ffynonellau ddim ar-lein. Ond, mynegodd nifer o gyfranogwyr bwysigrwydd taflenni yn ystod eu hymweliad; defnyddiodd 38% o ymwelwyr a oedd yn aros yng Nghymru wrth ymweld ffynonellau ddim ar-lein yn ystod eu hymweliad, sy'n cymharu â 17% a ddefnyddiodd ffynonellau ar-lein.
- Y dylanwadau pwysicaf ar ddenu ymwelwyr newydd i ardal yw argymhellion a phrofiadau ffrindiau/perthnasau/cyd-weithwyr.
- Mae pobl leol, yn arbennig darparwyr llety, yn chwarae rhan bwysig mewn dylanwadu ar le mae ymwelwyr yn mynd. Mae ymwelwyr yn ceisio eu cyngor nhw, ac mae ganddynt fwy o ffydd ynddo nac mewn adolygiadau ar-lein am eu bod yn byw yno. Felly, mae llawer o ymwelwyr yn defnyddio gwybodaeth leol i wirio eu rhestr o'r gweithgareddau a baratowyd, neu i gael syniadau newydd.

Mae'n amlwg fod deunyddiau marchnata a gwybodaeth ar-lein a ddim ar-lein yn bwysig i ymwelwyr ac mae'n bwysig ystyried y canfyddiadau hyn wrth adolygu presenoldeb a phroffil ar-lein Tywyn. Mae'r un peth yn wir wrth gynllunio ymgyrchoedd marchnata i'r dyfodol ac wrth ddatblygu deunyddiau hyrwyddo/wedi'u hargraffu. Gellid ystyried sefydlu cynllun Llysgenhadon gyda phobl leol yn gweithredu fel Llysgenhadon/tywyswyr/ffynonellau gwybodaeth i ymwelwyr.

Arolwg Ymwelwyr Cymru, 2016

Dyma'r **prif ganfyddiadau am broffil ymwelwyr Gwynedd** a gyflwynwyd gan Beaufort Research yn Arolwg Ymwelwyr Cymru 2016:

- Mae'r mwyafrif o ymwelwyr â Gwynedd yn byw yn Lloegr (60%)
- Mae canran uwch o ymwelwyr na'r cyfartaledd yn aros dros nos yng Ngwynedd, ac mae'n llawer uwch na chanran Cymru gyfan (37%) o ymwelwyr o weddill y DU.
- Mae oddeutu traean (37%) o'r ymwelwyr yn byw yng Nghymru o'i gymharu â 59% o'r holl ymwelwyr â Chymru; mae 3% yn byw dramor, o'i gymharu â 4% ar gyfartaledd yng Nghymru gyfan

- Mae Gwynedd yn denu canran uwch o ymwelwyr mwy cefnog ABC¹ (48%) o gymharu â holl ardaloedd Cymru (32%).
- Yn ôl yr arolwg, mae dros draean yr ymwelwyr yn ymweld gyda phlant (35%) (â'r mwyafrif ohonynt yn blant bach)
- Mae yna gwtâ draean (30%) yn gyplau
- Roedd mwyafrif sylweddol (71%) yr ymwelwyr â Gwynedd (o'r rhai a holwyd) wedi dod am y diwrnod, sydd yn llawer is na'r canran ar gyfer Cymru gyfan, sef 88%.
- Mae mwyafrif llethol yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yn byw yn Lloegr (82%), a nifer cyfartalog y nosweithiau a arhoswyd yng Ngwynedd yw 5.8, o'i gymharu â 6.0 ar draws Cymru.

Rhesymau am ymweld â gweithgareddau a ymgwymerwyd

- Nododd mwyafrif (73%) yr ymwelwyr â Gwynedd mai'r rheswm am ymweld oedd cael mwynhau'r dirwedd/cefn gwlad/traethau, sydd yn ganran uwch nac ar gyfer Cymru gyfan (56%).
- Roedd ymwelwyr â Gwynedd (41%) hefyd yn llawer mwy tebygol o fod wedi dod i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored nac ar gyfer holl ardaloedd Cymru, sef 25%
- Y tri gweithgaredd mwyaf poblogaidd, a ymgwymerwyd gan tua thraean o'r ymwelwyr â'r rhanbarth, oedd mynd i'r traeth (34%), ymweld yn gyffredinol (33%) a mynd i barciau gwledig (31%).

Bodddhad, ail-ymweld ac argymell:

- Yn gyffredinol, roedd ymwelwyr â Gwynedd yn hynod o fodlon gyda'u hymweliad â Chymru, gydag wyth allan o ddeg (82%) yn rhoi sgôr o 9 neu 10 (allan o 10) i Gymru fel cyrchfan.
- Roedd triapiau ymwelwyr i, neu yng Nghymru, y tu hwnt i ddisgwyliadau dros draean o ymwelwyr â Gwynedd - gyda 37% yn datgan fod yr ymweliad yn well na'r disgwyl
- Dywedodd bron yr holl ymwelwyr â Gwynedd y byddent yn debygol o ddychwelyd i Gymru yn y dyfodol (98%); gyda 92% yn bendant am ddychwelyd a 6% yn debygol o ail-ymweld.

Nifer yr ymwelwyr a'r effaith economaidd cysylltiol

2016 oedd y flwyddyn fwyaf llwyddiannus hyd yma i'r sector dwristiaeth yng Ngwynedd (Data ar gyfer 2016 yw'r mwyaf diweddar sydd ar gael); gwariodd twristiaid dros £1 biliwn yn yr economi leol. Ynghyd â chynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ystod y prif dymor gwyliau, gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn y cyfnod rhwng Ebrill a Hydref o'i gymharu â blynnyddoedd cynt.

Ymwelodd dros 7 miliwn o bobl â Gwynedd yn 2016, sef cynnydd o 3.2% ar y flwyddyn flaenorol; arhosodd 3.5m o'r rhain dros nos (cynnydd o 5.5% ar 2015), roedd y 3.6m arall yn ymweld am y dydd.

O ran effaith economaidd, cafwyd gwariant uniongyrchol o £0.75 biliwn yn 2016

¹ Mae ABC1 a C2DE yn raddau cymdeithasol bras; mae chwe categori (A, B, C1, C2, D a E) ac maent yn ddosbarthiadau cymdeithasol-economaidd a gynhyrchwyd gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol y DU. Dyma'r categorïau:
 AB – swyddi rheoli, gweinyddu a phroffesiynol canolradd ac uwch
 C1 – swyddi goruchwylio, clerigol, rheoli, gweinyddu a phroffesiynol is
 C2 – swyddi gwaith llaw medrus
 DE – swyddi gwaith llaw rhanol fedrus a di-grefft; y di-waith a galwedigaethau o'r radd isaf

(cynnydd o 4.7% ar y flwyddyn flaenorol). Canlyniad hyn oedd effaith economaidd o dros £1 biliwn (cynnydd o 4.5% ar 2015). Yn 2016, cyflogwyd 12,725 yn uniongyrchol mewn twristiaeth (FTE) (cynnydd o 1.6% ar 2015); ac roedd cyfanswm cyflogaeth (FTE) yn 15,557 (cynnydd o 2.1% o'r flwyddyn flaenorol). (Ffynhonell: data STEAM).

Atodiad 5: Astudiaeth o Gyfleoedd yr Amgylchedd Adeiledig Hanesyddol

WSTS01 Adeiladau rhestredig yn Nhywyn
WSTS02 Adeiladau a nodweddion eraill yn Nhywyn
WSTS03 Matrics adeiladau a nodweddion
WSTS04 Map Datblygiad
WSTS05 Cyfleoedd